Canllawiau Brand Gwirfoddoli Cymru

Fersiynau

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

Dylid defnyddio nod y brand mewn lliw lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, caiff y logo ymddangos hefyd wedi'i gildroi ar gefndir sy'n ddigon gwrthgyferbyniol i gadw'r eglurder.

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

Lliwiau corfforaethol

78% Du C: 0 M: 0 Y: 0 K: 78
I'w defnyddio ar y **copi Cymraeg**

Pantone 632 C: 92 M: 0 Y: 15 K: 5
I'w ddefnyddio ar y **copi Saesneg**

Ffurf-deip

Y ffurf-deip corfforaethol yw **Myriad Pro.**

Regular ABCDEFGHIJKLMN 123456
Light ABCDEFGHIJKLMN 123456

Defnyddiwch **'Myriad Pro Light'** ar gyfer corff y testun a **'Myriad Pro Regular'** ar gyfer y penawdau.

Maint lleiaf y testun **12pt**

Gofod gwag

Ardal o ofod clir o gwmpas nod y brand yw'r gofod gwag sy'n sicrhau nad oes dim yn ei guddio

Brandio

Yn gefn i nod y brand, mae'r enghraifft gyferbyn yn dangos sut mae defnyddio'r brand mewn ffordd effeithiol.

Mae'r siâp crwn yn adlewyrchu pen un person yn nod y brand.

Slogan

Dylid defnyddio'r slogan a'r gwegyfeiriadau a ganlyn lle bynnag y bo modd i ategu'r brand. Rhaid i'r Gymraeg ddod o flaen y Saesneg.

Rhowch ac mi gewch. Gwirfoddolwch
www.gwirfoddolicymru.net

Give a little, gain a lot. Volunteer
www.volunteering-wales.net

Lleoli

Rhaid gosod nod y brand ar ochr chwith y dudalen o leiaf 7mm o ymyl y dudalen.

Logos ategol

Rhaid cynnwys logo Un o Fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r WCVA bob tro ar y dyluniad. Dylid gosod y rhain fel eu bod oddeutu 50% yn llai na logo Gwirfoddoli Cymru, ar gornel dde isaf y dudalen.Os gosodir y logo gwirfoddoli ar ochr chwith isaf y dudalen, yna, rhaid i'r logos hyn beidio â chroesi'r gofod gwag, a rhaid iddynt beidio â bod yn dalach na'r ddwy linell o destun sydd yn nod brand Gwirfoddoli Cymru. Gweler isod.

Y rheolau

- Don't reposition the elements
- Peidiwch â newid lleoliad yr elfennau
- Peidiwch â newid y ffurf-deip
- Peidiwch â newid y lliwiau
- Peidiwch â gwrthdroi pethau
- Peidiwch ag ystumio nod y brand
- Peidiwch â chroesi'r gofod gwag
- Peidiwch â rhoi'r testun Saesneg uwchben y testun Cymraeg
- Peidiwch â gosod nod y brand o fewn panel bach o liw.